

# ADDUNEDAU BLWYDDYN NEWYDD

## SYNIADAU I ATHRAWON

Mae dechrau blwyddyn – boed yn flwyddyn galendr neu'n flwyddyn ysgol – yn aml yn achosi i bobl fyfyrion ar eu bywydau a gosod Addunedau Blwyddyn Newydd. Gellir defnyddio'r syniadau canlynol i helpu dysgwyr 7-14 oed i fyfyrion ar eu rôl eu hunain yn eu dosbarth, yng nghymuned yr ysgol ac fel dinasyddion byd-eang, gan eu cefnogi i benderfynu ar eu haddunedau eu hunain ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

### Dyfodol delfrydol (40 munud)

- Gwylwch y fideo We Won't Live with Poverty: <https://vimeo.com/140403120>
- Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol mewn paruau:
  - Beth oedd yn digwydd yn y fideo? Beth oeddech chi'n gweld pobl yn ei wneud?
  - Beth mae'r bobl yn y fideo yn ceisio ei newid?
  - Sut maen nhw'n ceisio gwneud gwahaniaeth?
- Dywedwch wrth y dysgwyr fod pobl, yn y fideo hwn, yn gweithio gyda'i gilydd i roi terfyn ar dlodi eithafol. Esboniwch fod byw mewn tlodi eithafol yn golygu nad oes gennych yr adnoddau sylfaenol y mae arnoch eu hangen er mwyn goroesi, megis bwyd, dŵr a lloches. Dywedir bod person yn byw mewn tlodi eithafol os oes ganddo lai nag US\$1.90 y dydd i dalu am ei holl anghenion. Tynnwch sylw at y ffaith fod yna bobl yn y fideo yn coginio ac yn ffermio, grŵp mawr o bobl mewn rali, a rhedwyr marathon. Mae'r rhain oll yn weithredoedd bychain sy'n cyfrannu at ymdrech fwy i roi terfyn ar dlodi eithafol.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddechrau sut yr hoffent iddynt hwy eu hunain, eu hysgol, eu cymuned leol neu'r byd fod yn y dyfodol. Er enghraifft, efallai yr hoffent i bobl drin ei gilydd yn fwy caredig.
  - Sut le yw'r dyfodol hwn?
  - Beth sy'n bwysig ynddo?
  - Beth fyddai angen i bobl ei wneud er mwyn creu'r dyfodol delfrydol hwn?
- Rhowch ddarn o bapur A4 i bob dysgwr a gofyn iddynt ei rannu'n 4. Dywedwch wrth y dysgwyr y gallant ddefnyddio pob chwarter i ddarlunio eu dyfodol delfrydol gan ddefnyddio lluniau a geiriau, neu y gallant greu collage gan ddefnyddio cyfuniad o ddarluniau, gwaith ysgrifennu ac eitemau a dorrrwyd o gylchgronau neu bapurau newydd. Esboniwch y dylai'r pedwar chwarter gynrychioli 'fi', 'fy ysgol', 'fy nghymuned leol' a 'fy myd'.
- Mewn grwpiau o bedwar, gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu portreadau o'u dyfodol delfrydol.
- Gwahoddwch y dysgwyr i rannu syniadau am eu dyfodol delfrydol. Fel dosbarth, trafodwch a yw'r pethau hyn yn bethau y gall unigolion ddylanwadu arnynt ynteu a oes arnynt angen grwpiau mwy o bobl yn gweithio ynghyd er mwyn creu newid.



## **Beth gallaf i ei wneud er mwyn gwneud gwahaniaeth? (30 munud)**

- Rhowch ddarn mwy o bapur i bob dysgwr a gofyn iddynt ei rannu'n bedwar, fel y gwnaethant yn Dyfodol delfrydol. Yna dylai'r dysgwyr roi eu portread o'u 'dyfodol delfrydol' yng nghanol y darn mwy o bapur.
- Mewn parau, gofynnwch i'r dysgwyr fyfyrion ar yr hyn y maent eisoes yn ei wneud fel unigolion i greu eu 'dyfodol delfrydol'. Esboniwch y gall y rhain fod yn weithredoedd bach neu fwy, megis prynu nwyddau Masnach Deg, gwirfoddoli yn eu cymuned leol, neu fod yn rhan o Gyngor Eco yr ysgol. Defnyddiwch y syniadau a'r cwestiynau yn y sioe sleidiau i ysgogi trafodaeth. Gofynnwch i ddysgwyr ysgrifennu eu syniadau yn chwarteri'r darn mwy o bapur, fel bod pob gweithred yn cyfateb i'r chwarter o'u 'dyfodol delfrydol' y mae fwyaf perthnasol iddo.
- Gofynnwch i'r dysgwyr drafod mewn parau pa gamau eraill y gallent eu cymryd fel unigolion i gyfrannu at eu dyfodol delfrydol. Dylai pob un ohonynt ysgrifennu'r syniadau hyn mewn pen ffelt o liw gwahanol yn chwarteri perthnasol eu darn mwy o bapur.
- Gofynnwch i bob pâr ymuno â phâr arall i ffurfio grwpiau o bedwar. Dylai'r dysgwyr rannu eu syniadau am wahanol gamau y gallai unigolion eu cymryd, cyn trafod y cwestiynau canlynol:
  - Sut y byddai'r weithred hon yn gwneud gwahaniaeth?
  - A oes modd ei chyflawni? Beth fyddai angen i chi ei wneud er mwyn gwneud yn siŵr bod y weithred hon yn digwydd?
- Gorffennwch drwy rannu syniadau'r dysgwyr fel dosbarth cyfan.

## **Creu Addunedau Blwyddyn Newydd (20 munud)**

- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar. Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis eu naw hoff weithred o'r rhai a drafodir yn Beth gallaf i ei wneud er mwyn gwneud gwahaniaeth? Dylent ysgrifennu pob adduned ar nodyn gludog neu gerdyn.
- Gofynnwch i'r dysgwyr roi eu syniadau mewn trefn ar ffurf 'diemwnt naw' ar sail meini prawf megis: pa weithredoedd y teimlant fyddai'n cael yr effaith fwyaf, pa rai sydd bwysicaf, a pha mor hawdd y gallai gweithred fod i'w chyflawni.
- Ceir manylion llawn am sut i osod trefn 'diemwnt naw' yn Global Citizenship in the Classroom: A guide for teachers (Oxfam, tudalen 19):  
[www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship/global-citizenship-guides](http://www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship/global-citizenship-guides)
- Caniatewch amser i'r dysgwyr ymuno â grŵp arall er mwyn trafod y drefn y maent wedi ei phennu a chanfod unrhyw debygrwydd neu wahaniaethau.
- Gofynnwch i'r dysgwyr, yn unigol, ddewis eu tair hoff adduned i'w cyflawni ar gyfer y tymor neu'r flwyddyn nesaf. Gofynnwch iddynt ysgrifennu eu rhesymau dros ddewis pob un. Gallent ddefnyddio'r cwestiynau allweddol canlynol i'w cynorthwyo i feddwl:
  - Beth yw diben yr adduned hon? Beth fydd hi'n ei gyflawni?
  - Pam mae'r adduned yn bwysig i chi?
  - Pa effaith fydd yr adduned hon yn ei chael?
  - Pa mor hawdd fydd yr adduned hon i'w chyflawni?

- Yn olaf, gwahoddwch y dysgwyr i rannu rhai o'u haddunedau a'r rhesymau dros eu dewisiadau gyda'r dosbarth cyfan.

### **Addunedau'r dosbarth (20 munud)**

- Gan ddefnyddio eu syniadau o Beth gallaf i ei wneud er mwyn gwneud gwahaniaeth?, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru a dewis pum adduned i'r dosbarth cyfan weithio tuag atynt.
- Gofynnwch i bob pâr ymuno â phâr arall; rhyngddynt, dylai fod ganddynt ddeg adduned. Gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu haddunedau a thrafod pam maent wedi eu dewis. Yn eu grŵp, dylai'r dysgwyr wedyn gytuno ar bum adduned ar gyfer y dosbarth cyfan.
- Yna dylai pob grŵp o bedwar ganfod grŵp arall ac ailadrodd y gweithgaredd. Arddangoswch yr addunedau ar y bwrdd a gwahoddwch y dysgwyr i roi rhesymau i esbonio pam maent yn meddwl bod pob un yn bwysig. Eu nod yw perswadio gweddill y grŵp i gytuno â hwy. Rhowch bum dot gludiog i bob dysgwr ac esboniwch eu bod yn cynrychioli pleidleisiau. Gofynnwch i'r dysgwyr roi eu dotiau gludiog ar y bwrdd ger eu hoff adduned(au). Gallant ddefnyddio cynifer (neu cyn lleied) o ddotiau ag y mynnant ar gyfer pob adduned.
- Y pum adduned â'r nifer uchaf o ddotiau fydd addunedau'r dosbarth. Gofynnwch i'r dysgwyr greu arddangosfa ar gyfer y dosbarth fel y bydd y pum adduned yn weladwy i'r holl ddysgwyr.

### **Myfyrion ar eich addunedau (20 munud)**

- Gellid gwneud y gweithgaredd hwn o dro i dro neu ar ddiwedd y flwyddyn neu'r tymor ysgol. Byddai'n gweithio gydag addunedau unigol y dysgwyr a chydag addunedau'r dosbarth cyfan.
- Gan ddefnyddio eu haddunedau, dylai'r dysgwyr dreulio ychydig funudau yn myfyrion unigol ar y cwestiynau canlynol:
  - Beth sydd wedi mynd yn dda?
  - Beth gallwn i/gallem ni ei wneud yn wahanol yn y dyfodol?
- Trefnwch y dysgwyr yn barau a gofyn iddynt drafod eu syniadau.
- Trafodwch fel dosbarth cyfan beth sydd wedi mynd yn dda o ran yr addunedau, gan annog y dysgwyr i roi enghreifftiau a nodi beth gallent ei wneud yn wahanol yn y dyfodol.
- Yn olaf, cefnogwch y dysgwyr i greu posteri i ddangos eu cyflawniadau, yn ogystal â'u bwriadau ar gyfer y dyfodol.
  - Eleni rwyf wedi...
  - Yn y dyfodol byddaf yn...

## Dolenni defnyddiol

Mae gan Oxfam lawer o adnoddau addysgol eraill all gynorthwyo dysgwyr i feddwl am ba newidiadau yr hoffent eu gweld yn y byd.

- **Mae'r Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang:** Canllaw i Ysgolion yn cynnwys offer sy'n cefnogi dysgwyr i archwilio materion byd-eang, megis defnyddio 'coed materion' a 'chadwyni pam-pam-pam'.  
[www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship/global-citizenship-guides/canllawiau-dinasyddiaeth-fyd-eang](http://www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship/global-citizenship-guides/canllawiau-dinasyddiaeth-fyd-eang)
- **Mae Ysgolion Noddfa** (i bobl ifanc 11-16 oed) yn cynorthwyo dysgwyr i ganfod mwy am ffoaduriaid a cheiswyr lloches cyn ystyried sut gallant sicrhau bod eu hysgol yn gymuned groesawgar. Mae'r adnodd hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg.  
[www.oxfam.org.uk/cy-GB/education/resources/schools-of-sanctuary](http://www.oxfam.org.uk/cy-GB/education/resources/schools-of-sanctuary)
- **Mae Making the change: Female climate change fighters** (i bobl ifanc 11-16 oed) yn defnyddio ffilm a drosleisir gan y bardd Roger McGough i edrych ar sut mae newid yn yr hinsawdd wedi effeithio ar fenywod yn Bolivia, y Philipines, Zimbabwe a'r DU a sut mae eu cymunedau yn ymateb.  
[www.oxfam.org.uk/education/resources/making-the-change](http://www.oxfam.org.uk/education/resources/making-the-change)
- Mae **Danfona fy Ffrind i'r Ysgol** yn archwilio mynediad i addysg ledled y byd ac yn cefnogi dysgwyr i leisio a rhannu eu safbwyntiau.  
[www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship/send-my-friend-to-school](http://www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship/send-my-friend-to-school)

## Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Cewch ddefnyddio'r ffotograffau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Gyda phob defnydd, rhaid ichi gyfeirio at y ffotograffydd a enwir ar gyfer y ddelwedd honno ac at Oxfam. Ni chewch ddefnyddio delweddau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn perthyn i'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd gwaith y prosiect.